

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 11fed Hydref, 2011, yn Y Neuadd Goffa, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 11th October, 2011 at Memorial Hall, Y Felinheli.

Yn Bresennol/Present: Ken Brown (Cadeirydd ; Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Lena Ashley; Gareth Griffith; Sian Gwenllian;
Iestyn Harris; Pat Jones; Eluned Owen;
Gerald Roberts; George Smith.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cyng. Daniel Williams am sefyll i mewn fel cadeirydd yn ystod ei absenoldeb o'r cyfarfod diwethaf.

The Chairman welcomed all to the meeting and thanked Cllr Daniel Williams for standing in as Chairman during his absence from the last meeting.

2) Ymddiheuriadau/Apologies Ronald Gray; Pat White.

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod y 6ed Medi 2011.

Minutes of the Meeting held on 6th September were received and confirmed.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

i) Gwefan Cymunedol –dim ystadegau ar gael ar gyfer mis Medi

Diweddaru'r Wefan – Cyfarfod yw ail-drefnu gyda Mr Michael Roberts, Delwedd.

Community Web site – no statistics available for the month of September.
Up-dating the web site – a meeting with Mr Michael Roberts, Delwedd, to be re-arranged.

ii) Cymunedau Cynladwy – Bu nodiadau o'r cyfarfod gyda nifer o gymdeithasau lleol a gynhaliwyd yn y Neuadd ar 20fed Medi ei gylchlythyru. Eglurwyd bod cais wedi ei gyflwyno oherwydd bod y dyddiad cau ar 30fed Medi. Penderfynwyd mynd am un brosiect. h.y. trafndiaeth cymunedol. 'Roedd tair thema i'r cais, sef:
1) dod a phobl ynghyd ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau lleol.

2) dosbarthu cynyrch lleol i bobl lleol yn ogystal a chludo phobl a gwirfoddolwyr i'r Gampfa Werdd yn Stad y Vaynol.

3) defnyddio tanwydd bio-methane, sef tanwydd gwyrdd.
Disgwylir canlyniad y cais o gwmpas 8fed, 9fed Tachwedd.
Bydd cyfarfod cyhoeddus o'r cynllun yn cael ei arddangos yn y Galeri, Caernarfon ar 8fed Tachwedd. Cynnigiodd Cyng Sian Gwelllian gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod yma.

iii) LOCOG – cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd yn amlinellu be ddisgwylir gan y pentref pan fydd y fflam olympaidd yn mynd drwy'r pentref ar 28 Mai 2012. Bydd cyfarfod arall yn cael ei drefnu pan fydd mwy o fanylion ar gael.

iv) Canllaw Newydd yn Rhiwal, Seilo – Cais wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd

ii) Sustainable Communities – notes of the meeting held with local organisations held at the Memorial Hall on 20 September had been circulated. Explained that an application had been submitted as the closing date was 30th September. It was decided to go for one project, i.e. Community transport. There were three themes to the application:

1) bring people together for meetings and local activities

2) distribute local produce to local people as well as transporting volunteers to the 'Gampfa Werdd' on the Vaynol Estate

3) use bio methane fuel – agreen fuel.

iii) LOCOG -A report was received from the Chairman outlining what is to be expected from the village when the olympic torch will be carried through the village on 28th May 2012. A further meeting is to be held when more information will be available

iv) New Hand Rail in Rhiwal, Seilo – request sent to Gwynedd Council

5) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Ymweliad CFAP – Cafwyd ymweliad gan ddwy gynrychiolydd o Lywodraeth y Cynulliad adran CFAP a datganwyd eu bodlonrwydd gyda'r gwaith oedd wedi ei gyflawni yn y Neuadd.

Eglurwyd bod diffyg ariannol yn y gronfa a bydd yn anodd iawn i'r Pwyllgor Rheoli gyfarfod â'r diffyg. Llythyr wedi ei anfon at y Pensaer ac mi fydd angen trefnu cyfarfod gyda'r Pensaer. Mi 'roedd swm y cytundeb yn sefydlog ac mi 'roedd y Pensaer a'r Adeiladwr yn ymwybodol o hyn. Nid oes unrhyw gŵyn am y gwaith sydd wedi ei gyflawni. Nid yw'r incwm yn ddigonol i dalu benthyciad.

Derbyniwyd cais drwy lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli am grant ariannol o £5,500 i gwblhau taliad yr Adeiladwr hyd at swm y contract.

PENDERFYNIAD: Cyflwyno swm o £5,500 i gronfa'r Pwyllgor Rheoli er mwyn cwblhau taliad i'r Adeiladwr hyd at swm y contract.

Cyflogaeth – Gofalwraig wedi ei phenodi dros dro. Pwyllgor Cyflogaeth i gyfarfod.

Visit CFAP (Community Facilities and Activities Programme) an official visit was made by representatives of the Assembly Government, and both declared their satisfaction with the work completed at the Memorial Hall.

Declared that there was a financial deficiency in the funds and it would be impossible for the Management Committee to meet this deficiency. A letter had been sent to the Architect and there will be a need to arrange a meeting with the Architect. The contract was a fixed price contract and both Architect and Builder were aware of this. There is no complaint regarding the work undertaken. Income from the Hall is insufficient to repay any borrowing.

Letter received from the Chairman of the Management Committee requesting a grant of £5,500 to complete payment to the Builder up to the contract sum.

DECISION: Payment in the sum of £5,500 to be made to the Management Committee so that the amount up to the sum of the contract be completed.

Employment – a caretaker on a temporary basis has been employed. Employment Committee to meet.

6) **Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:**

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Medi.
Cyflwynwyd Cysoniad Banc i gadarnhau'r gweddill.

Ystyried unrhyw faterion y tynir sylw atynt yn yr adroddiad blynyddol.

Dim mater wedi ei dynnu i sylw gan yr Archwiliwr.

Cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2010-2011

Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad a'r Cadeirydd yn arwyddo Adran 3 o'r Datganiad yn cwblhau'r Adroddiad am y flwyddyn 2010-2011. Disgwyl Tystysgrif oddiwrth yr Archwiliwr yn cyflawni'r archwiliad am y flwyddyn ariannol 2010-2011.

A summary of payments during the months of September.
A Bank Reconciliation was presented confirming the balances.

Consider any issues highlighted in the Annual Return.

No matters had been drawn to the attention of the Council by the Auditors.

Approve the Annual Return 2010-2011

The Council approved the Annual Return and the Chairman signed Section 3 of the Return completing the Return for the year 2010-2011. A Certificate will now be expected from the Auditors confirming that the audit for the financial year 2010-2011 had been finalised.

7) Gohebiaeth/Correspondence:

Derbyniwyd a nodwyd gohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis
Correspondences for the month were received and noted.

Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cynnal yn y Gaeaf / Maintenance
Service during the Winter Nodwyd / Noted

2) Partneriaeth Economaidd Gwynedd / Gwynedd Economic
Partnership (PEG)
Adroddiad Blynyddol / Annual Report
Nodwyd / Noted

Un Llais Cymru/One Voice Wales – Rifyn diweddaraf 'Y Llais' / Latest
Edition of 'The Voice'

Penodi Hyrwyddwyr Hyfforddiant / Appointment of Training Champions
Penodwyd Cyng Daniel Williams / Cllr Daniel Williams appointed.

Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 8fed Hydref
Annual Conference and AGM 8th October
Nodwyd / Noted

8) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Bu i'r Clerc gysylltu a Chyngor Tregwalchmai i holi ynglyn a'i cloc nhw sydd yr un gwneuthuriad a chloc Y Felinheli. Adroddwyd nad oedd unrhyw broblem dwr gyda'i cloc. Cafodd y cloc ei ail bwyntio rhai blynyddoedd yn ol. Bu'r Clerc mewn cysylltiad hefyd a 'Smiths of Derby' i holi os oeddynt wedi dod ar draws problem cyffelyb. Cafwyd ymateb negyddol ond 'roedd y cwmni yn fodlon ymweld a'r cloc ac i drafod gyda'r Pensaer. Cyng Daniel Williams yn disgwyl ymateb cwmni ap Thomas.

The Clerk had contacted Tregwalchmai Council to enquire whether they had a similar problem with their clock that is of identical construction as the one in Y Felinheli. Reported that there was no water seepage problem. Their clock was re-pointed several years ago. The Clerk had also contacted Smiths of Derby to enquire whether or not they had encountered a similar problem. A negative reply was received but the Company was prepared to arrange a visit and to discuss with our Architect. Cllr Daniel Williams waiting for a response from ap Thomas and Co.,

9) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Dim ceisiadau yw trafod y mis hwn.

No applications to consider this month.

10) Neuadd yr Eglwys / Church House

Derbyniwyd lythyr oddiwrth yr Eglwys yn egluro nad oedd Cyngor Plwyf Eglwysig Llanfair-is-gaer wedi penderfynnu beth yn union oedd dyfodol y Neuadd ac na all y Cyngor Plwyf ymrwymo i unrhyw gytundeb ar hyn o bryd.

GWEITHRED: Clerc i gydnabob llythyr gan ofyn i'r Cyngor Cymuned gael y cynnig cyntaf petai'r Cyngor Plwyf yn penderfynu unrhyw bryd yn y dyfodol i ymadael a'r eiddo ac i'r Cyngor Plwyf gofrestru'n diddordeb yn yr eiddo.

Letter received from the Parish Council stating that the Council had not decided what the future of the Hall might be and that they could not tie themselves to any agreement at the moment.

ACTION: Clerk to acknowledge receipt of the letter asking that the Community Council have first refusal should the Parish Council decide some time in the future to dispose of the property and for the Parish Council to register the Community Council's interest.

11) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Dim yw adrodd / Nothing to report

12) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Maes Parcio wedi ei lanhau – Car Park has been cleaned

13) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Adroddwyd bod 2 lwybr wedi ei lanhau gan Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

3ydd a'r 4ydd Cylchdaith wedi eu lawrlwytho ar y wefan.

Nifer fawr o luniau hanesyddol angen eu sganio fydd yn golygu lot o waith.

Reported that 2 footpaths had been cleared by the Highways Department, Gwynedd Council.

The 3rd and 4th circular walk had now been downloaded onto the website.

A large number of historical photographs are to be scanned that will involve a lot of work.

14) Cystadleuaeth Garddio / Gardening Competition

Bydd noson gwobreuo ar 19fedd Hydref am 7.00 yn Mhlas Dinorwic

The presentation evening will be held on 19th October at 7.00pm at Plas Dinorwic

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Cafwyd Adroddiad ar lafar cynhwysfawr.

Soniwyd bod Cronfa Trefi Taclus wedi caniatáu grant o £8000 tuag at tir lunio dros ffordd a Londis.

Cais Mon/Menai am arian i ymestyn Lon Las dal i mewn.

Perchenog Plas Eifion wedi adeiladu cwt ar dir yr hen reilffordd.

Rhif 11 Ffordd Caernarfon – Ymchwiliad cyhoeddus wedi ei drefnu.

Llinellau melyn dwbl rownd Capel Bethania wedi eu cwblhau.

Eisteddfod yn Urdd - £3,000 i fynd cyn cyrraedd y nod.

Bore Coffi McMillan wedi codi bron £250

Felin Sgwrsio – llawn gweithgareddau

Plas Dinorwic – Adran Cynllunio wedi caniatáu cais i greu mwy o unedau er i'r cais gael ei wrthod gan y Cyngor Cymuned.

Cwyn bod coed wedi eu torri yn Hen Gei Llechi

Llwybr Brynffynnon - estyniad wedi ei godi yn cymeryd rhan o'r llwybr.

A comprehensive verbal report was received.

Mentioned that Tidy Towns Fund had approved a grant of £8000 for the landscaping of land opposite Londis

Application Mon/Menai for grant towards extending Lon Las was still valid.

Owner of Plas Eifion had erected a shed on the old railway track land.

No 11 Caernarfon Road – Public Enquiry arranged,

Double yellow lines located around Bethania Chapel

Urdd Eisteddfod - £3000 to raise before reaching the target

Coffee Morning in aid of McMillan realised the sum of almost £250

Felin Sgwrsio - activities timetable full

Plas Dinorwic – Planning Department have approved an application to increase the number of units despite the Community Council's objection.

Complaint received regarding the cutting of trees at Hen Gei Llechi

Brynffynnon Footpath – an extension erected encroaching onto the path.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Offer Sain ar gyfer y Neuadd / Sound equipment for the Hall

Yn dilyn noson arddangosfa yn y Neuadd soniwyd nad oedd y sustem sain yn ddigonol ar gyfer maint y Neuadd. Eglurwyd mai offer un seinydd oedd wedi ei fenthycu oedd wedi ei ddefnyddio. Mae trefniad wedi ei wneud gyda Pwyllgor Gŵyl y Felin i ddefnyddio eu hoffer ar gyfer unrhyw weithgaredd sydd angen sustem sain yn y dyfodol.

Following an exhibition evening at the Hall it was reported that the sound system used was inadequate for the size of the Hall. It was explained that the one speaker system had been borrowed for the evening. Arrangements now made with the Gwyl y Felin Committee, that their sound system will be available for any future event requiring a sound system.

Insuleiddio ystafell bwyllgor rhag sŵn o'r Neuadd / Sound insulate the committee room

Dim arian ar hyn o bryd i ymgymryd â'r gwaith

No monies available at the moment to undertake the work.

Llwybr Brynffynnon - mater wedi ei basio'n mlaen i Adran Llwybrau ac Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Matter passed to the Footpaths Department and the Planning Department

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 9.10..

No other matters to discuss and the meeting finished at 9.10.p.m.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a ohirwyd or 8fed Chwefror hyd at Chwefror 15 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

Minutes of the adjourned meeting of Y Felinheli Community Council from the 8th to the 15th February at Bethania Chapel, Y Felinheli.

Presennol / Present: Ken Brown (Cadeirydd/Chairman)
Daniel Williams (is-gadeirydd / Vice Chairman)
Cynghorwyr/Councillors Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris;
Pat Jones; Gerald Roberts; George Smith;
Pat White.

Ymddiheuriadau / Apologies Cllr Eluned Owen

1) yn dilyn eitem 7 ar Agenda cyfarfod o'r Cyngor ar yr 8fed Chwefror pan benderfynwyd gohirio'r eitem am wythnos i'w trafod ar y 15fed Chwefror.

Following item 7 on the Agenda for the meeting of the Council on 8th February when it was decided to adjourn the item for one week to be discussed on 15th February.

Ystyried Ceisiadau am gymorth ariannol / Consider requests for financial assistance

Sylwadau Arweiniol / Opening Remarks

Eglurwyd bod llawer cais wedi ei dderbyn oddiwrth amrywiaeth o wasanaethau a chymdeithasau oddimewn a thu allan i gylch lleol Y Felinheli.

Explained that many applications had been received from organisations and services both within and outside the locality of Y Felinheli.

PENDERFYNWYD – Ystyried ceisiadau oddimewn cylch lleol Y Felinheli yn union fel mae'r polisi wedi bod yn y gorffennol.

DECIDED – Consider applications within the locality of Y Felinheli in accordance with past policy.

Wedi trafod pob cais yn unigol penderfynwyd rhannu arian fel a ganlyn:

After considering each single application it was decided to share the money as follows:

- £200 - Y Goriad - tuag at gostau argraffu.
- £150 - Clwb y Felin (Henoed) tuag at gostau'r Clwb
- £500 - Gwyl y Felin tuag at gynnal yr Wyl
- £400 - Cyfeillion yr Ysgol tuag at brosiect o osod cysgodfa ar gyfer yr adran iau.
- £200 - Cylch Meithrin Y Felinheli tuag at adnoddau newydd i'r Cylch
- £400 - Clwb Peldroed Y Felinheli tuag at wariant ar y cantin a'r ystorfa
- £ 50 - Felinheli Rainbows tuag at gemau ac offer ar gyfer genethod 5 – 7 oed
- £100 - 3rd Portdinorwic Guides tuag at offer ar gyfer coginio a thent newydd
- £100 - Brownies tuag at brynu nwyddau, offer a rhentu caban yn y Felin Fach
- £500 - Clwb Pêl-droed Ieuencid i brynu offer y ogystal â chostau llogi neuaddau ar gyfer ymarferion
- £150 - Pwyllgor Regatta tuag at cynnal y Regatta yn 2011

Yn ogystal a'r uchod mae'r Cyngor yn ol eu Rheolau Sefydlog yn rhoi £500 yn flynyddol i Eglwys Santes Fair Llanfairisgaer ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

In addition to the above, the Council, in accordance with their Standing Orders, donate the sum of £500 to St Mary's Church, Llanfairisgaer towards the repair and maintenance of the Church cemetery.

Cae Aml Bwrpas - Mae'r Cyngor wedi ystyried ceisio grantiau ar gyfer lleoli cae aml bwrpas yn ardal Pennington's, Lon Las fydd yn fantais ac yn adnodd gwerthfawr i'r pentref. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw mlaen gyda'r prosiect ond naturiol yn cefnogi'r prosiect.

Derbyniwyd cais oddiwrth Mr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Y Felinheli yn amlinellu eu gobaith gyda'r prosiect. Mae cais cynllunio eisioes wedi ei ganiatau ac mae angen arian i gychwyn y brosiect. Bydd grant o £1000 yn gyfateb i amcan bris cwmni Wakemans ar gyfer prisio'r prif waith ac

mae Cyngor Gwynedd a Chynllun Môn a Menai wedi ymateb yn bositif iawn hyd yma i ariannu'r prosiect. Y cam cyntaf fydd gwaith prisio'r ac fe fyddai cael arian ar gyfer y gwaith hwnnw yn help mawr I annog y brosiect yn ei flaen.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £1000 er mwyn cychwyn y gwaith prisio ac er mwyn i'r prosiect cyffrous newydd yma gael ei wireddu.

Multi-purpose all weather pitch - The Council have considered applying for grants to establish a multi-purpose allweather playing area in the Pennington Area that would prove to be a worthwhile benefit to the village. At present, the Community Council are unable to proceed with the project but obviously support he project.

An application had been received from Mr Emyr Roberts, Chairman of the Felinheli Football Club, outlining their hopes for the project. Planning application has already been granted, but money is needed to start the project. A grant of £1000 would meet

the estimate from Wakeman's for pricing the main works and Gwynedd Council and the Mon Menai Plan have responded positively so far to finance the project. The first step is to have the major works costed and to receive a grant towards that work will be of great assistance to promote the project.

Following a discussion, it was unanimously agreed that the sum £1000 be donated by way of a grant to commence the costing work and for this new exciting project to materialise.

Cadeirydd / Chairman

8fed Mawrth 2011
8th March 2011